Regional School Improvement Consortia
Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Datblygu Ysgolion Cymru i fod yn sefydliadau sy'n dysgu


Central South Consortium
Consortiwm Canolbarth y De
Joint Education Service
Gwasanaeth Addysg ar y Cyd

GwE
Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

ERW
Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working

EAS
Education Achievement Service
for South East Wales
Gwasanaeth Cyflawni Addysg
i Dde Ddwyrain Cymru

Mae model Cymru ar gyfer Ysgolion sy'n Sefydliadau Dysgu yn canolbwyntio ar **saith 'dimensiwn'** yn ein hysgolion.




Mae'r saith dimensiwn yn pwysleisio'r **nodau a'r prosesau** i weddnewid ysgol i fod yn sefydliad sy'n dysgu.


# YSGOLION SY'N SEFYDLIADAU DYSGU - YSTYRIED Y SAITH DIMENSIWN - DATBLYGU

- Nod gweledigaeth gynhwysol a rennir yw gwella profiadau dysgu a deilliannau pob dysgwr.

- Mae gweledigaeth yr ysgol yn canolbwyntio ar wella deilliannau gwybyddol a chymdeithasol-emosiynol dysgwyr (gan gynnwys materion yn ymwneud â'u lles), mae'n cwmpasu'r presennol a'r dyfodol, ac mae'n ysbrydoli ac yn ysgogi'r dysgwyr.

- Gwireddu'r weledigaeth yw sail y dysgu a'r addysgu.

- Er mwyn gwireddu gweledigaeth yr ysgol, bydd yn rhaid i'r holl staff gyfrannu, gan gynnwys llywodraethwyr ac unigolion perthnasol eraill.





- Gwahoddir dysgwyr, rhieni/gofalwyr, y gymuned allanol a phartneriaid eraill i gyfrannu at weledigaeth yr ysgol.

***Mae'r weledigaeth ar gyfer Ysgolion sy'n Sefydliadau Dysgu yn rym a all ysgogi gweithredu cyson.***

# YSGOLION SY'N SEFYDLIADAU DYSGU - YSTYRIED Y SAITH DIMENSIWN - CREU

- Mae'r holl staff yn ymroi i ddysgu proffesiynol parhaus i sicrhau bod eu harferion yn cael eu herio ac yn cael eu diweddaru'n gyson.
- Mae staff newydd yn cael eu cefnogi drwy'r broses sefydlu.
- Mae cefnogaeth ar gael i'r holl staff drwy goetsio a mentora.
- Mae dysgu proffesiynol yn canolbwyntio ar ddysgu’r dysgwr ac ar nodau'r ysgol.
- Mae'r staff yn ymroi'n llawn i nodi'r amcanion a'r blaenoriaethau ar gyfer eu dysgu proffesiynol eu hunain.





- Mae dysgu proffesiynol yn herio meddylfryd fel rhan o'r broses o newid arferion.
- Mae dysgu proffesiynol yn cysylltu dysgu yn y gweithle ac arbenigedd allanol.
- Mae dysgu proffesiynol yn seiliedig ar asesiadau ac adborth gan nifer o bobl gan gynnwys dysgwyr.
- Rhoddir amser ac adnoddau eraill i gefnogi dysgu proffesiynol.
- Mae diwylliant yr ysgol yn hyrwyddo ac yn cefnogi dysgu proffesiynol.

***Mewn Ysgolion sy'n Sefydliadau Dysgu, y staff sy'n gyfrifol am eu dysgu proffesiynol eu hunain.***

# YSGOLION SY'N SEFYDLIADAU DYSGU - YSTYRIED Y SAITH DIMENSIWN - HYRWYDDO

- Mae yna ganolbwynt penodol i sesiynau cydweithio a chyd-ddysgu - wyneb yn wyneb a/neu gan ddefnyddio TGCh - ac maent yn gwella profiadau dysgu a deilliannau dysgwyr a/neu arferion staff.
- Mae'r staff yn ystyried gyda'i gilydd sut i wneud eu dysgu eu hunain yn rhywbeth mwy pwerus.
- Mae'r staff yn dysgu sut i gydweithio fel tîm.
- Mae'r staff yn teimlo'n gyfforddus yn gofyn i'w gilydd am gyngor.





- Mae cyd-ymddiriedaeth a chyd-barch yn werthoedd craidd.
- Mae'r ysgol yn neilltuo amser ac adnoddau eraill ar gyfer cydweithio a chyd-ddysgu.

***Mae cydweithio a chyd-ddysgu yn ganolog i Ysgolion sy'n Sefydliadau Dysgu.***

# YSGOLION SY'N SEFYDLIADAU DYSGU - YSTYRIED Y SAITH DIMENSIWN - SEFYDLU

- Mae staff yn barod i gymryd risgiau, arbrofi ac arloesi yn eu harferion.
- Mae'r ysgol yn cefnogi ac yn cydnabod staff sy'n dangos menter ac sy'n cymryd risgiau.
- Mae staff yn mynd ati i ddefnyddio dulliau i ymchwilio i'w harferion a'u datblygu.
- Defnyddir gwaith ymchwilio i sefydlu a chynnal rhythm o ddysgu, newid ac arloesi.
- Mae staff yn agored i feddwl a gwneud pethau yn wahanol.





- Caiff problemau a methiannau eu gweld fel cyfleoedd dysgu.
- Mae dysgwyr yn cymryd rhan weithredol mewn gwaith ymchwilio.

***Mae Ysgolion sy'n Sefydliadau Dysgu yn defnyddio gwaith ymchwilio i sefydlu newid ac arloesi mewn arferion addysgol.***

# YSGOLION SY'N SEFYDLIADAU DYSGU - YSTYRIED Y SAITH DIMENSIWN - EHANGU

- Mae systemau ar waith i astudio cynnydd a wnaed a'r bylchau rhwng yr effaith bresennol a'r effaith ddisgwyliedig.
- Mae strwythurau yn eu lle ar gyfer deialog a chyfnewid gwybodaeth yn rheolaidd.
- Rhoddir enghreifftiau o arferion da ac arferion sy'n methu i'r holl staff er mwyn llywio'r broses ddysgu.
- Mae ffynonellau o dystiolaeth ymchwil ar gael yn hawdd, a chânt eu defnyddio gan staff i wella eu harferion.





- Mae staff yn gallu dadansoddi a defnyddio sawl ffynhonnell ddata at ddibenion adborth, gan gynnwys drwy TGCh, i lywio'r addysgu a dyrannu adnoddau.
- Mae cynllun datblygu'r ysgol yn seiliedig ar hunanasesiadau parhaus ac yn cael ei ddiweddaru o leiaf unwaith bob blwyddyn.
- Mae staff yn trafod ac yn gwerthuso'n rheolaidd a yw camau a gymerwyd wedi cael yr effaith a ddymunir ac maent yn newid cyfeiriad os oes angen.
- Mae'r ysgol yn gwerthuso effaith dysgu proffesiynol.

***Mae Ysgolion sy'n Sefydliadau Dysgu yn sicrhau bod ganddynt gyfoeth o wybodaeth.***

# YSGOLION SY'N SEFYDLIADAU DYSGU - YSTYRIED Y SAITH DIMENSIWN - DYSGU

- Mae'r ysgol yn system agored, sy'n croesawu deialog ag unigolion/grwpiau allanol a allai fod am gydweithredu.
- Mae'r ysgol yn cadw llygad ar ei hamgylchedd allanol er mwyn ymateb yn gyflym i heriau a chyfleoedd.
- Mae staff yn cydweithio, yn dysgu ac yn cyfnewid gwybodaeth â staff ysgolion eraill, drwy rwydweithiau a/neu systemau cydweithio rhwng ysgolion.
- Mae'r ysgol yn cydweithio â rhieni/gofalwyr a'r gymuned fel partneriaid yn y broses addysg a threfniadaeth yr ysgol.





- Mae'r ysgol yn creu partneriaethau â sefydliadau addysg uwch, busnesau a/neu sefydliadau cyhoeddus neu anllywodraethol mewn ymdrech i ddyfnhau ac ehangu dysgu.
- Caiff partneriaethau eu seilio ar gydraddoldeb y partneriaid a chyfleoedd dysgu i'r ddwy ochr.
- Defnyddir TGCh yn eang i hwyluso cyfathrebu, cyfnewid gwybodaeth a chydweithio â'r amgylchedd allanol.

***Mae Ysgolion sy'n Sefydliadau Dysgu yn cyfnewid gwybodaeth a chydweithio â'r system dysgu ehangach.***


# YSGOLION SY'N SEFYDLIADAU DYSGU - YSTYRIED Y SAITH DIMENSIWN - MODELU

- Mae arweinwyr ysgolion yn sicrhau bod y camau a gymerir gan y sefydliad yn gydnaws â'i weledigaeth, ei nodau a'i werthoedd.
- Mae arweinwyr ysgolion yn modelu arweinyddiaeth ym maes dysgu, yn rhannu'r arweinyddiaeth ac yn helpu i feithrin arweinwyr eraill, gan gynnwys dysgwyr.
- Mae arweinwyr ysgolion yn cymryd camau rhagweithiol i ysgogi newid mewn ffordd greadigol, gan roi pwyslais cryf ar wella'r broses ddysgu ac addysgu.
- Mae arweinwyr ysgolion yn sicrhau bod yna 'rhythm' o ddysgu, newid ac arloesi yn nodweddu eu hysgolion.
- Mae arweinwyr ysgolion yn datblygu'r diwylliant, y strwythurau a'r amodau i hwyluso deialog broffesiynol, cydweithio a chyfnewid gwybodaeth.




- Mae arweinwyr ysgolion yn hyrwyddo cydweithio cryf ag ysgolion eraill, rhieni/gofalwyr, y gymuned, sefydliadau addysg uwch a phartneriaid eraill, ac maent yn cymryd rhan eu hunain yn y cydweithio hwnnw.
- Mae arweinwyr ysgolion yn sicrhau dull integredig o ymateb i anghenion dysgu dysgwyr ac anghenion eraill.

***Arweinyddiaeth yw'r elfen hanfodol sy'n cysylltu saith dimensiwn Ysgolion sy'n Sefydliadau Dysgu.***



Y rhanddeiliaid sy'n cynorthwyo
Consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol
Llywodraeth Cymru
Cyngor y Gweithlu Addysg
Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol
Rhieni, gofalwyr a llywodraethwyr
Cymunedau lleol a rhyngwladol
Darparwyr addysg athrawon
Estyn
Cymwysterau Cymru
Rhwydweithiau ysgolion
Cyflogwyr
Ysgolion yng Nghymru yn gweithredu fel sefydliadau sy'n dysgu
Modelu a datblygu **arweinyddiaeth ym maes dysgu**
Datblygu **gweledigaeth a rennir** sy'n rhoi sylw i'r hyn y mae pob dysgwr yn ei ddysgu
Creu a chefnogi cyfleoedd **dysgu parhaus** i bob aelod o'r staff
Hyrwyddo **dysgu** mewn tîm **a chydweithio** ymhlith pob aelod o'r staff
Sefydlu **diwylliant o ymchwilio**, arloesi ac archwilio
Ehangu defnydd o systemau ar gyfer casglu a **chyfnewid gwybodaeth** at ddibenion dysgu
Dysgu drwy'r **amgylchedd allanol** a'r system ddysgu ehangach
Pedwar diben